

Y Rheolau Cefn Gwlad

Dilynwch y Côd Cefn Gwlad.

Defnyddiwch glwydi a chamfeydd i groesi perthi a ffensys Mwynhewch gefn gwlad, a pharchu ei fywyd a'i waith Gadewch lonydd i anifeiliaid fferm, cnydau a pheiriannau Dilynwch lwybrau cyhoeddus ar draws tir amaeth Gofalwch fod gennych reolaeth lym ar eich ci Cymrwch ofal arbennig ar ffyrdd cefn gwlad Diogelwch fywyd gwyllt, planhigion a choed Cefnogwch fusnesau a gwasanaethau lleol Peidiwch â gwneud sŵn diangen Helpwch i gadw pob dŵr yn lân Ewch â'ch sbwriel adref Caewch bob clwyd



Glöyn Trilliw Bach
Small Tortoiseshell

The Country Code

Please follow the country code.

Use gates and stiles to cross hedges, fences and walls.
Enjoy the countryside and respect its life and work.
Leave livestock, crops and machinery alone.
Support local businesses and services.
Keep to public paths across farmland.
Take special care on country roads.
Protect wildlife plants and trees.
Keep dogs under close control.
Make no unnecessary noise.
Help to keep all water clean.
Take your litter home.
Fasten all gates.



Sgrech y Coed
Jay

Parc Ynys Dawela

Mae Parc Natur Ynys Dawela yn llechu ym mhen uchaf Dyffryn Aman. Ffin ogleddol y parc natur yw Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, gydag ysblander y Mynydd Du yn y cefndir. Afon Aman, a'r coetiroedd deri hynafol ar hyd ei glannau, yw ffin ddeheuol y parc. Mae'r parc yn ymestyn dros 39 erw (15.8 hectar), ac arferai fod yn fferm slawer dydd. Bellach mae hen weirgloddiau'r fferm yn cynnal amrywiaeth cyfoethog o blanhigion y mae rhai ohonynt - megis y Carwe Troellog ac Ysgall Gorswaun - yn brin. Mae'r gweirgloddiau ar eu mwyaf ysblynydd ganol yr haf pan fo'r rhan fwyaf o'r planhigion yn eu blodau.

Mae gan y parc nifer o gynefinoedd pwysig sydd yn cynnal amrywiaeth o blanhigion ac anifeiliaid. Mae'r glaswelltiroedd gwlyb, y tir corsio, a'r pyllau, yn arbennig o bwysig i amffibiaid, megis Madfallod Dŵr, Brogaod a Llyffantod, y mae eu niferoedd yn lleihau ledled y byd.

Dengys map gan yr Arolwg Ordnans yn 1812 fod Fferm Ynys Dawela wedi ei lleoli mewn ardal hollol wledig a oedd yn frith o fân ffermydd gwasgaredig, sef patrwm a oedd yn nodweddiadol o Orllewin Cymru y cyfnod hwnnw. Fodd bynnag ni lwyddodd y fferm i osgoi anrhaith diwydiant yn llwyr.

Erbyn diwedd yr 1830au a dechrau'r 1840au yr oedd dynion wedi bwrw ati ag arddeliad i gloddio am gyfoeth mwynol y gymdogaeth. Yn wir, ymhen dim o dro yr oedd diwydianwyr yn manteisio ar y cyflenwad lleol o galch, glo a haearn

Cafodd gweithfeydd haearn a thunplât eu codi ar lan ddwyreiniol yr afon, a suddwyd drifft i gloddio am lo caled ar y lan orllewinol (ar dir y Parc) ger yr hen ffermdy. Ymhen amser cafodd rhannau helaeth o'r Parc eu gorchuddio gan wastraff o'r diwydiant glo, ond erbyn hyn bu adfywiad naturiol yn yr ardaloedd hynny. Bellach, mae yno goetir a phrysgdir sydd yn frith o eithin, banadl, bedw a deri.

Bu ond y dim i dir y fferm gael ei droi yn safle glo brig, cyn i Gyngor Bwrdeistref Dinefwr ei brynu oddi ar Lo Prydain gan sicrhau y byddai ar gael i genedlaethau'r dyfodol werthfawrogi ei ogoniant.

Ers hynny mae'r Parc wedi ei ddatblygu at ddibenion hamdden ac addysg. Bellach mae'r clytwaith o weirgloddiau, coetiroedd a chorsydd yn y Parc, ynghyd â'r rhwydwaith o lwybrau, yn agored i baw eu mwynhau.

Mwy o Wybodaeth

Ceir yr orsaf agosaf at y Parc yn Rhydaman. Mae gwasanaethau bws yn rhedeg yn rheolaidd i Frynaman Uchaf o Rydaman. Ffoniwch Llinell Gymorth Gwybodaeth am Drafnidiaeth Gyhoeddus Cymru gyfan ar 0870 6082 608 am y wybodaeth ddiweddaraf.

Mae'r llwybr hwn yn un o gyfres Llwybrau Sir Gaerfyrddin. I gael rhagor o wybodaeth am y llwybrau yn y gyfres cysylltwch â'r: Uned Hamdden Cefn Gwlad, Tŷ'r Nant, Parc Busnes Trostre, Llanelli. SA14 9UT. Ffôn: 01554 747500. [Www.sirgar.gov.uk](http://www.sirgar.gov.uk)


Gan eich bod wedi mwynhau mynd am dro ar hyd un o'n llwybrau, efallai yr hoffech wybod bod tri Pharc Gwledig yn Sir Gaerfyrddin - sef Parc Gwledig Pen-bre, Parc Gwledig Gelli Aur ger Llandeilo, a Pharc Gwledig Llyn Llech Owain ger Gors-las - a bod gan y rhain rywbeth at ddant pob un sydd yn mwynhau cefn gwlad.

More Information

The nearest train station to the Park is Ammanford. Regular bus services to Upper Brynamman run from Ammanford. Phone the All Wales Public Transport Information Help Line on 0870 6082 608 for up to date information.

This is one of a series of country walks in Carmarthenshire. For further information of walks in this series contact: Countryside Recreation Unit, Tŷ'r Nant, Trostre Business Park, Llanelli. SA14 9UT, Tel. (01554) 747500 www.carmarthenshire.gov.uk

Now that you have enjoyed one of our walks, you may like to know that there are three Country Parks in Carmarthenshire - Pembrey Country Park, Gelli Aur, near Llandeilo and Llyn Llech Owain, near Gorslas. All offering excellent opportunities for enjoying the countryside.



Ynys Dawela Park

Ynys Dawela Nature Park nestles in the upper reaches of the Amman Valley. Its northern boundary is the Brecon Beacons National Park with the rugged backdrop of the Black Mountain. By contrast, the river Amman, with its fringe of ancient oak woodland, forms its southern boundary. The park covers an area of 39 acres (15.8 hectares) and was once a working farm. The meadows dating from this period now support a rich assortment of flowers, some of which are scarce, like Whorled Caraway and Meadow Thistle. The meadows are at their most beautiful in late summer when most of the flowers are in bloom.

The park has a range of important habitats that support a diverse assemblage of plant and animal life. The wet grasslands, marshy ground and ponds are particularly important to amphibians, like Newts, Frogs and Toads whose numbers are in decline throughout the world.

An Ordnance Survey map of 1812 shows Ynys Dawela Farm within a purely rural setting of scattered farmsteads and agricultural land, typical of West Wales at that time. However, the farm did not entirely escape the ravages of industrialisation. By the late 1830s and early 1840s serious moves were underway to exploit the mineral reserves in the area. Entrepreneurs were on hand to make use of the readily available limestone, coal, and iron.


Iron and tin plate works were built on the eastern side of the river and a drift mine, to extract anthracite coal, was sunk on its western bank, (within the Park) close to the old farmhouse. Areas of the Park covered by coal mining waste have now naturally regenerated into colourful scrub woodland of gorse, broom, birch, and oak.

The site narrowly escaped open cast mining, before Dinefwr Borough Council secured its future by buying it from British Coal. Since then the Park has been developed for quiet recreation and educational use. Its patchwork of meadows, woods and wetlands, linked by a series of paths are now open for all to enjoy.




Teithiau Cerdded Sir Gaerfyrddin

Ynys Dawela



Ynys Dawela

Carmarthenshire County Walks

 Cyngor Sir Gaerfyrddin
Carmarthenshire County Council

Teithiau Cerdded

Mae Parc Natur Ynys Dawela wedi'i leoli ger cyrion gorllewinol Brynaman. Mae tri phwynt mynediad i gerddwyr, y mae un ohonynt yn darparu mynediad i gerbydau ar gyfer ym anabl yn ogystal. Y ffordd fwyaf hwylus i'r rhai hynny sy'n ymweld â'r parc am y tro cyntaf yw oddi ar Heol Llandeilo, ger Heol yr Orsaf. Mae'r mynediad i'r parc wedi'i nodi o Heol Llandeilo tua hanner cilomedr y tu allan i'r pentref. Gellir cael mynediad i'r parc hefyd dros bont o Heol Bryn Bach neu o'r llwybr cyhoeddus ger cyffordd Heol Bryn Bach a Heol Llandeilo.

Mae'r rhan fwyaf o'r llwybrau o fewn y parc wedi'u harwynebu ac yn codi neu'n disgyn yn raddol. Mae'r llwybrau yn addas ar gyfer pobl sy'n cael anhawster i gerdded neu grwpiau teulu gyda chadeiriau gwthio. Yr eithriadau i hyn yw'r rhes o risiau ar ffiniau dwyreiniol y Parc a Thraith Glan yr Afon ar gyrion ffiniau'r de. Mae llethrau serth ar y ddau lwybr a allai beri anhawster i rai ymwelwyr.

The Walks

Ynys Dawela Nature Park is situated adjacent to the west side of Brynamman. There are three access points for walkers, one of which also provides vehicle access for disabled visitors. The most obvious access for the first time visitor is from Llandeilo Rd, off Station Rd. Access to the park is way-marked from the Llandeilo road approximately half Kilometre outside of the village. Access can also be gained over a bridge from Bryn Bach road or from the public footpath at the junction of Brynbach road and Llandeilo road.

The majority of the paths within the park are surfaced and have shallow gradients. The paths are appropriate for people with limited mobility or family groups with push chairs. The exceptions to this are the flight of steps on the eastern boundary of the Park and the Riverside Walk on its southern boundary, both have steep gradients which may prove challenging to some visitors.

Parc Ynys Dawela Park

Mae dŵr agored y pwll yn gynefin lle mae gwesynod a mursennod yn dod i fwydo ac i fagu. Mae'r Ymerawdwr (sydd yn drawiadol dros ben ac yn un o'r gwesynod mwyaf yn Ewrop) i'w weld yma weithiau yn yr haf, ynghyd â Mursennod Gleision Cyffredin.

Yn ogystal, mae'r pwll yn cynnwys rhannau dyfnion, sydd yn annhebygol o sychu, ac mae cynefin o'r fath yn hanfodol ar gyfer griffith Brogaod, Madfallod Dŵr a Llyfantod Dafadenog.



Penryn Goldfinch

Mae'r gors yn gynefin gwych arall ar gyfer planhigion, trychfilod ac anifeiliaid eraill sydd yn hoffi llecynnau llai. Mae planhigion megis Tegeiriannau Mannog, Llysiâu'r Sipsiwn, a Llysiâu'r Angel, ynghyd â Marchrawn yr Ardwr yn ffynnu yn y man hwn. Mae Marchrawn yr Ardwr yn perthyn i deulu hynafol o blanhigion, ac mae eu hollion ffynfodol i'w cael mewn gwythiennau glo sydd filiynau o flynyddoedd oed. Yn wir yr oedd rhai mathau yn arfer tyfu cyn daled â choed anferth!

Mae amrywiaeth rhyfeddol o blanhigion yn tyfu ar y glaswelltiroedd yma yn Ynys Dawela. Mae rhai ohonynt megis y Carwe Troellog ac Ysgall Gorswaun yn brin, ond mae yno liaws o blanhigion cyffredin hefyd megis Blodau Ymenyn a Mintys y Dŵr. Mae'r gweirgloddiau ar eu mwyaf ysbennedd tua mis Awst pan fo'r rhan fwyaf o'r planhigion yn eu blodau

Mae'r coetiroedd a'r perthi yn gartref i lu o anifeiliaid sydd yn chwilio am eu bwyd ac yn cael lloches ymysg y coed a'r llwyni. Mae mamaliaid bychain megis Llygod y Maes a Llygod y Gwair yn eithaf cyffredin, ynghyd â Gwiwerod Llwyd, Draenogod ac Ystumod. Bydd llawer o'r rhain yn ysglyfaeth i greaduriaid ysglyfaethus sydd yn hela'n rheolaidd yn y parc, megis Curyllod Coch, Bodaod, Gwencitod a Chadnoidd.

Mae'r perthi a'r coetiroedd yn y parc yn cynnal amrywiaeth eang o adar. Yr adar mwyaf amlwg yw Sgrechod y Coed lliwgar, Piod a Ji-bincod, ynghyd â Mwyalchod, Robiniaid Cochion a Drywod. Weithiau mae Drywod Eurben yn ymuno â'r heidiau stwrllyd o Ditwod Tomos Glas, Titwod Mawr a Thitwod Cynffon Hir.

Arferai glowyr fynd yn ddwfn dan ddaear i hewl Ynys Dawela i gloddio am lo caled. Rhoddwyd y gorau i weithio'r lofa flynyddoedd lawer yn ôl, a bellach mae wedi ei ffensiō er mwyn diogelu'r cyhoedd.



Cadno Fox



Cyngor Cefn Cymru Cymraide Council for Wales

communities first **cymunedau yn gyntaf**



CAMBRIA ACCREDITED



Cyngor Sir Caerfyrddin Carmarthenshire County Council



RYAN ARENIA Y PROECT CAN YR UNDEB EWROPEAID
PROJECT PART-FINANCED BY THE EUROPEAN UNION

Safle'r Gwaith Tun Site of Tinworks



Coal. The mine was abandoned many years ago and is now fenced off to protect the public.

This whole area on the western side of the Park is covered by a layer of coal waste. It is now densely overgrown with colourful Gorse, Broom and Birch and provides a contrasting habitat to the agricultural land to the east. The buildings of the coal washery were sited on what is now the car park.

Cyfeillion Ynys Dawela The Friends of Ynys Dawela



Llywodraeth Cymru Llywodraeth Cymru Welsh Assembly Government

The pond provides an area of water for dragonflies and damselflies to visit and breed. The impressive Emperor Dragonfly, (one of the largest dragonflies in Europe) can sometimes be seen here in summer along with their more dainty cousins the Common Blue Damselfly. The pond also provides a deep-water area, unlikely to dry out, which is essential for the survival of frog, newt and toad spawn.



Gwesynod Dragonfly

The marsh provides another wonderful habitat for plants, insects and other animals that like wet conditions. Common Spotted Orchids, Gipsywort and Wild Angelica, along with Field Horsetails thrive here. Field Horsetails belong to an ancient family of plants. Their fossil remains can be found in coal measures, millions of years old. Some grew to enormous, tree size proportions!

The grasslands at Ynys Dawela have a wonderful variety of flowers. Some are scarce like Whorled Caraway and Meadow Thistle whilst others are quite common like Meadow Buttercup and Water Mint. The meadows provide their finest show around August, when most of the flowers are in bloom.

The woodland and hedgerows are home to a host of wildlife that find food and shelter amongst the trees and shrubs. Small mammals like Woodmice and Bank Voles are quite common and share the woods with Grey Squirrel, Hedgehogs and Bats. Many of these will fall prey to the numerous predators known to frequent the park, such as Kestrel, Buzzard, Weasel and Fox.

The hedgerows and woodlands within the park support a wide variety of bird life. Colourful Jays, Magpies and Chaffinches along with Blackbirds, Robins and Wrens are most easily seen. Noisy flocks of Blue Tits, Great Tits and Long Tailed Tits are occasionally joined by Goldfinches.

Miners once descended deep underground to the Ynys Dawela level to extract Anthracite



Glowyr Miners



Legend

- Tipiau Glo Extent of Coal Waste
- Glanwllŷr Gwylb Mŷt Gwennol
- Coedwr Mawr & Bwy Arwr
- Mines Parcio Car Park
- Coedwr Aghwafol Aghwaf Woodland
- Mynediad Ffocws
- Llysoedd Cychodolac Eriall Other Rights of Way